## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion Y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar 23 Chwefror 2005 am 10.00am.

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorwyr S Thomas (Cadeirydd),  J R Bartley, R E Barton, J Butterfield, J Chamberlain-Jones, M Ll Davies (Sylwebydd)  P C Duffy, (Sylwebydd) G C Evans, S Frobisher, D Hannam, K N Hawkins, T K Hodgson, N J Hughes, N Hugh-Jones, D Jones, E R Jones, H Jones (cyrhaeddodd 12.15 p.m.), M M Jones, P W Owen, N P Roberts, J A Smith, (Sylwebydd)  D A J Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams, E W Williams, R Ll Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawr), Uwch Swyddog Cefnogi (G Butler), Swyddog Gweinyddol (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd).

**CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr J M Davies, H H Evans, M A German, I M German, T R Hughes,  Hugh Jones, (cyrhaeddodd 12.15 p.m.), M A Webster.

### 661. MATERION BRYS

Sesiynau Hyfforddi

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gwrs hyfforddi i Gynghorwyr newydd a gynhaliwyd yn ddiweddar a mynegodd ei siom mai dim ond nifer fechan a oedd yn bresennol.  Mae'n bwysig fod Cynghorwyr yn manteisio ar y sesiynau hyn.

Dywedodd y Cynghorydd R J Bartley ei fod yn ddiwrnod ardderchog gan ei argymell i bob Aelod.

### 662. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd (a rannwyd o'r blaen) gyda'r cynlluniau a gyflwynwyd ac sydd angen eu penderfynu gan y Cyngor.

***PENDERFYNWYD:-***

(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a chaniatáu neu wrthod, fel bo'r achos, ganiatâd cynllunio o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a / neu Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ar gyfer y datblygiadau a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a geir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad |
|---|---|
| 40/2004/1569/PF | (Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Cyngor Cefn Gwlad Cymru)<br>Datganodd y Cynghorydd R E Jones ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr pan oedd yn cael ei drafod.  Newid ac ymestyn adeilad cyfathrebu di ddefnydd er mwyn sefydlu uned hydrotherapi ar gyfer cŵn ac adeiladu mynedfa gerbydau newydd.<br>**Tir yn Coed Erw'r Gaseg Ffordd Nant Y Faenol Bodelwyddan y Rhyl.** |

CANIATÁU: Yn amodol ar:
Amodau Diwygiedig 6 a 7:
6. "a / neu"
7. Dileu "i fodlonrwydd yr Awdurdod Priffyrdd"
ac Amodau Newydd 10, 11 a 12.
10. Ni chaniateir unrhyw ddatblygu nes bo cynllun o ddraenio dŵr budur a dŵr glan wedi'i gyflwyno i, a'i gymeradwyo gan, yr Awdurdod Cynllunio Lleol a rhaid i'r cynllun a gymeradwyir fod wedi'i gwblhau cyn bod yr adeilad(au) yn cael ei / eu defnyddio gyntaf.
11. Ni chaniateir dechrau datblygu nes cwblhau arolwg ffotograffig o'r adeiladau presennol yn unol â'r manylion sydd i'w cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflwyno'r ffotograffau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn un mis i'w cwblhau.
12. Rhaid cymryd rhagofalon rhesymol i amddiffyn rhywogaethau gwarchodedig ar y safle yn ystod y datblygiad ac sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd gan Tim J Hodnett dyddiedig Gorffennaf 2004.
*Rhesymau: Er mwyn amddiffyn y rhywogaethau gwarchodedig ar y safle.*
*A* Nodiadau Newydd i Ymgeisydd 1 a 2
1. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Atodol Rhifau 1,3,4,5 a 10.
2. Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N (Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991).

(Dymunai'r Cynghorydd R E Barton iddo gael ei nodi iddo ymatal rhag pleidleisio)

42/2004/1553/PF

Codi estyniad deulawr gyda tho brig i dŷ anedd.
**Mount House Bryniau Dyserth y Rhyl**.
CANIATÁU: Yn amodol ar Amod Newydd 3
3. Er gwaethaf y manylion a ddangosir ar y cynllun safle arfaethedig ni chaniateir torri, tocio na thorri brig unrhyw goeden neu wrych ar safle'r cais heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd raid ail blannu yn lle'r rhai sydd wedi'u torri neu sydd wedi'u difrodi'n ddifrifol neu sydd ag afiechyd drwg o fewn pum mlynedd i orffen y datblygiad, gyda choed neu blanhigion gwrych o faint a rhywogaeth sydd i'w cytuno'n ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
<0}{0><}0{>

(Dymunai'r Cynghorydd R E Barton iddo gael ei nodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio).

43/2004/1250/PF

(Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth:
Gyngor Tref Prestatyn
Allan Tomlinson 6 Princes Avenue, Prestatyn
Sion Goldsmith Rheolwr Canolfan Hamdden)

Adeiladu estyniad deulawr gyda tho brig i ysgol gan gynnwys ystafelloedd dosbarth newydd, mannau cadw, mannau theatr a mynedfeydd i'r anabl.
**Ysgol Uwchradd Prestatyn, 2 Princes Avenue, Prestatyn**
CANIATÁU Yn amodol ar Amod Diwygiedig 3 a'r Amodau Newydd 5, 6, 7, 8 a 9
3. Ychwaneger "Bydd y manylion a gyflwynir yn cynnwys darpariaethau ar gyfer parcio i'r anabl, mannau parcio dynodedig a

darpariaeth ar gyfer cadw lleoedd parcio i'r ganolfan hamdden, ar gyfer y safle'n gyffredinol".

5. Bydd y mannau parcio ychwanegol a ddangosir ar gynllun safle rhif P1-03-02 yn destun cynllun tirlunio caled a meddal a bydd raid i gynllun o'r fath gynnwys manylion o: (a) pob coeden, gwrych a llystyfiant arall ar y tir, manylion o unrhyw rai sydd i'w cadw ac o sut y bwriedir eu diogelu yn ystod y datblygiad.

(b) Coed, gwrychoedd, prysglwyni neu lystyfiant newydd gan gynnwys cadarnhad o'r rhywogaeth, nifer, lleoliad a ba bryd y bwriedir plannu.

(c) y defnyddiau y bwriedir eu defnyddio ar y ffyrdd, llwybrau a mannau eraill gydag wyneb caled.

(d) y gwaith pridd arfaethedig, graddio a phentyrru tir a newidiadau mewn lefelau, y cyfuchliniau terfynol a pherthynas y pentyrrau arfaethedig gyda'r llystyfiant presennol a ffurf y tir o amgylch.

(e) safle, dyluniad, defnyddiau a math o derfyn.

6. Rhaid plannu, hadu, gosod tywyrch, ffensio, codi waliau, a gwaith arall sydd wedi'i gynnwys yn y manylion tirlunio sydd wedi'u cymeradwyo, yn ystod y tymor plannu cyntaf ar ôl darfod y datblygiad a bydd raid plannu yn lle unrhyw goeden neu blanhigyn a fydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd o'r datblygiad, yn marw, yn cael eu tynnu neu sy'n cael eu difrodi neu sydd ag afiechyd difrifol gydag eraill o faint a rhywogaeth debyg.

7. Rhaid darparu mannau parcio beiciau ar safle'r ysgol (yn lle'r raciau beiciau sy'n cael eu colli oherwydd y datblygiad a darparu mannau parcio beiciau ychwanegol) cyn dechrau defnyddio'r adeilad yn unol â'r cynlluniau sydd i'w cyflwyno i, a'u cadarnhau gan, yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Er mwyn sicrhau darpariaeth addas i feicwyr.

8. Cyn dechrau defnyddio'r datblygiad sydd drwy hyn yn cael ei ganiatáu, rhaid cyflwyno cynllun a rhaglen gweithredu Cynllun Teithio Gwyrdd ar gyfer safle'r ysgol gyfan i, a derbyn cymeradwyaeth gan, yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid gweithredu'r cynllun ar ôl hynny yn unol â'r rhaglen a fydd wedi'i chymeradwyo.

Rheswm: Er mwyn sicrhau y gweithredir cynllun cludiant cynaliadwy a lleihau'r pwysau ar barcio ar y safle.

9. Rhaid darparu'r man sy'n cael ei ddangos ar gyfer parcio dros dro ar y cynllun safle rhif P1-03-02 cyn dechrau ar y gwaith adeiladu ar yr estyniad yn unol â'r manylion sydd i'w cyflwyno i, â'u cadarnhau gan, yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw le parcio'n cael ei golli yn ystod y cyfnod adeiladu.

(Dymunai'r Cynghorwyr R E Barton, S Frobisher, N Hugh-Jones a J Thompson-Hill iddo gael ei nodi nad oedd yr un ohonynt wedi pleidleisio na chymryd rhan y ddadl).

| | |
|---|---|
| 43/2004/1525/PF | Dymchwel garej bresennol a chodi estyniad deulawr gyda tho brig ar du blaen / ochr tŷ annedd.<br>**113 Ffordd Meliden Prestatyn**<br>CANIATÁU |
| 43/2004/1572/PF | Codi estyniad unllawr gyda tho brig i du ôl tŷ annedd.<br>**4 Eden Avenue Prestatyn.**<br>CANIATÁU |
| 43/2004/1607/PF | Ar ol ystyried cywiriad i'r adroddiad. |

Codi tŷ annedd unllawr ar wahân a ffurfio mynedfa gerbydau / cerddwyr gyda ffordd a man troi.
**Tir ger Claremont Meadows Lane Prestatyn.**
CANIATÁU Yn amodol ar Amodau Newydd 5 a 6.
5. Rhaid plannu, hadu, gosod tywyrch, ffensio, codi waliau, a gwaith arall sydd wedi'i gynnwys yn y manylion tirlunio sydd wedi'u cymeradwyo, yn ystod y tymor plannu cyntaf ar ol darfod y datblygiad a bydd raid plannu yn lle unrhyw goeden neu blanhigyn a fydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd o'r datblygiad, yn marw, yn cael eu tynnu neu sy'n cael eu difrodi neu sydd ag afiechyd difrifol gydag eraill o faint a rhywogaeth debyg.
6. Rhaid darparu cyfleusterau a'u cadw ar y safle ac o fewn cwrtil Claremont ar gyfer cerbydau'n troi, parcio ayb.
Nodiadau i Ymgeisydd 1 a 2.
1. Dylech sylweddoli fod hawl tramwy cyhoeddus ger y datblygiad. Rhaid peidio ag amharu ar yr hawl tramwy hwn gydol y cyfnod adeiladu.
2. Dim ond i garthffos gyhoeddus y gellir gollwng dŵr budur. Rhaid i ddŵr wyneb ddraenio i byllau mwydo neu, os oes un ar gael, i ffos / gwrs dŵr ger y safle.

45/2004/1190/PF

Codi estyniad unllawr to brig ar du ol tŷ annedd a chodi estyniad dormer ar yr ochr.
**18 Ridgeway Avenue y Rhyl.**
CANIATÁU

45/2004/1516/PF

Ar ol ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Asiantaeth yr Amgylchedd
Dymchwel adeiladau mân-werthu a hamdden presennol, ail ddatblygu rhan a newid adeiladau presennol i ddarparu uned fân-werthu newydd gyda chyfleusterau cadw a chefnogi.
**Flanaghans, Market Street, Warws, Market Street, a 23-27 Queen Street y Rhyl.**
CANIATÁU Yn amodol ar Amod Newydd 9
9. Ni ddylid gosod lefel llawr gorffenedig yr adeilad ar 6.3m AOD fel y danghosir ar y cynlluniau a gyflwynwyd ond yn hytrach ar 6.5 AOD.
Rheswm: Er mwyn lleihau risg o lifogydd.
Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd:
Fe'ch atgoffir fod gorchymyn traffig mewn grym ar Market Street sy'n gwahardd cerbydau ar y briffordd fabwysiedig heblaw am rhwng 5.00 pm a 10.00 am pan ellir llwytho a dadlwytho ar gyfer y datblygiad.

45/2004/1561/PF

Codi estyniad to fflat a ffurfio dormer yng nghefn tŷ annedd.
**3 Ascot Drive y Rhyl**.
CANIATÁU Yn amodol ar Amod Ddiwygiedig 3
3. "....yn waliau ochr y dormer a ganiateir drwy hyn".

45/2004/1635/PF

Newid cyn siop yn fflat hunangynwysiedig ar y llawr gwaelod.
**2 Crescent Square y Rhyl.**
CANIATAU

45/2004/1648/PF

(Ar ol ystyried cywiriad i'r adroddiad).
Adeiladu 53 o unedau trigiannol gyda darpariaethau gofal cymunedol a lleoedd parcio cerbydau cysylltiedig.
**76-83 West Parade y Rhyl**.

Penderfynwyd CANIATAU ond yn amodol ar fod yr ymgeisydd yn cytuno i Rwymedigaeth Cynllunio neu dalu blaendal / swm cymudol ar gyfer darpariaeth mannau agored.
Yn amodol ar amodau ychwanegol fel a ganlyn:
10. Cyfyngiad ar oedran i rai dros 55 yn unig.
11. Cyn fod y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn cychwyn rhaid cyflwyno cynllun i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a derbyn ei gymeadwyaeth yn dangos y ddarpariaeth ar gyfer mynediad i'r adeilad gan rai ag anableddau. Bydd raid gweithredu'r cynllun a gytunir cyn dechrau defnyddio'r datblygiad a ganiateir.
(Dymunai'r Cynghorydd R E Barton iddo gael ei nodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio).

46/2004/1611/PR

Manylion 9 anheddle, mynedfeydd cerbydau a cherddwyr cysylltiedig a gyflwynwyd yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol rhif 46/2003/0074/PO.
**Tir yng nghefn Kentigern Arms yn wynebu Stryd Gemig, Llanelwy.**
CANIATAU Yn amodol ar Amod Ddiwygiedig 1
1. Ychwanegu "a bydd y datblygiad yn cael ei adeiladu gyda'r gwaith brics a gafodd ei gymeradwyo".
Dileu amodau 3, 4, 6 a 7 ac ail rifo'r amodau sy'n aros.
Ac ychwanegu Nodiadau Newydd i'r Ymgeisydd:
1. Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N atodedig (Deddf Gwaith Ffordd a Stryd Newydd 1991).
2. Dim ond i garthffos gyhoeddus y gellir gollwng dŵr budur. Rhaid i ddŵr wyneb ddraenio i byllau mwydo neu, os oes un ar gael, i ffos / gwrs dwr ger y safle.
3. Dywed Babtie, Ymgynghorwyr Datblygiadau Newydd, fod carthffos gyhoeddus yn croesi'r safle. Cysylltwch â Babtie am ragor o wybodaeth cyn symud ymlaen â'r datblygiad. Gellir cysylltu â Babtie ar 01745 815815 neu drwy e-bostio babtie@denbigh.com.

47/2004/1601/PF

Newid adeiladau allanol i anheddle, gosod tanc trin newydd a chyfleusterau mynediad / parcio cysylltiedig.
**Adeiladau Allanol yn Bryn Gronw Rhuallt Llanelwy** CANIATAU Yn amodol ar Amodau Ddiwygiedig / Ychwanegol:
4. "Lle ar gyfer tri cherbyd modur yn troi a pharcio ayb...."
5. "Ni chaniateir i neb fyw yn yr anheddle ayb...."
8. Rhaid plannu, hadu, gosod tywyrch, ffensio, codi waliau, a gwaith arall sydd wedi'i gynnwys yn y manylion tirlunio sydd wedi'u cymeradwyo, yn ystod y tymor plannu cyntaf ar ol darfod y datlbygiad a bydd raid plannu yn lle unrhyw goeden neu blanhigyn a fydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd o'r datblygiad, yn marw, yn cael eu tynnu neu sy'n cael eu difrodi neu sydd ag afiechyd difrifol gydag eraill o faint a rhywogaeth debyg.
9. Bydd raid cau unrhyw agoriad(au) presennol yn y wal a / neu adfer y waliau / gwaith cerrig presennol yn unol â'r cynlluniau gafodd eu cymeradwyo a chyda defnyddiau sy'n cydweddu â'r rhai ar y waliau presennol y maent yn rhan ohono mewn gwedd, math, lliw, mortar a phwyntio.
10. Ni cheir dechrau ar y datblygiad heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch yr union fath o ddenfyddiau a gorffeniad y ffenestri ar gyfer y datblygiad.
11. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, bydd raid gorffen y waliau mewn gwaith cerrig a / neu wyngalch ac nid render wedi'i baentio'n wyn.
Rheswm: Er budd gweledriad yr AHNE.

| | |
|---|---|
| 03/2004/1435/PF | Codi estyniad deulawr gyda tho brig i du ol tŷ annedd.<br>**3, Craig y Don Queen Street, Llangollen**<br>CANIATAU Yn amodol ar Amod Ddiwygiedig 3<br>3. Ychwanegu "yn waliau ochr i'r estyniad a ganiateir drwy hyn ar lefel y llawr cyntaf". |
| 11/2004/1635/PF | (Datganodd y Cynghorydd E W Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei drafod).<br>Codi sied da byw gyda ffrâm bortal, o ddur.<br>**Tir ar Gae Rhif 4323 ger Plas Clocaenog, Clocaenog Rhuthun**<br>(Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Geraint Lewis – ar ran perchnogion Plas Clocaenog)<br>CANIATAU Yn amodol ar Amod Ychwanegol 2<br>2. Ni chaniateir defnyddio'r adeilad a ganiateir drwy hyn nes darparu mynedfa yn unol â'r manylion sydd i'w cyflwyno i, ac a gymeradwyir yn ysgrifenedig, gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. |
| 15/2004/0834/PO | **Siaradwyr o'r Cyhoedd**<br>**Yn erbyn – G Carter O blaid – R Jones**<br>(Ar ôl ystyried 9 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth:<br>1. Cymdeithas Gadwriaethol Llanarmon a'r Cylch<br>2. Luis Prtak drwy e-bost<br>3. Mr a Mrs Leighton, 8 South Close, Marlow<br>4. Mr a Mrs Morris, Delfryn, Bryn Alyn, Llanferres<br>5. Tim Miller, 8 Riverside Court, Exeter<br>6. Gordon Carter, Cae Harri, Bryn Alyn, Llanferres<br>7. PE MacGilivray, Mangwyn, Bryn Alyn, Llanferres<br>8. Iain MacGilivray, Mangwyn, Bryn Alyn, Llanferres<br>9. D Watts, Allt Alyn, Bryn Alyn, Llanferres<br><br>Codi adeilad i letya cathod gyda swyddfa / man derbyn, darpariaeth ar gyfer parcio a ffordd newydd i gynnwys newid defnydd o adeilad amaethyddol presennol ar gyfer lletya cŵn (cais amlinellol).<br>**Bryn Difyr Llanferres Yr Wyddgrug**<br>CANIATAU Yn amodol ar Amod Ddiwygiedig / Ychwanegol:<br>8. Y nifer mwyaf o anifeiliaid a ellir eu cadw dros nos ar y safle ar unrhyw un adeg yw 30 o gathod a 10 ci os na chymeradwyir yn wahanol yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>10. Dileu "Yn dilyn dechrau defnyddio un ai'r llety cŵn neu adeilad y llety cathod".<br>12. "0830 i 1830 o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn"<br>14. Ni chaniateir adeiladu na defnyddio corlannau allanol i gŵn heb ganiatâd ysgrifenedig ffurfiol yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>Rheswm: Er budd mwynderau trigolion eiddo trigiannol cyfagos yn yr ardal ac er bydd mwynderau gweledol.<br>(Dymunai'r Cynghorydd R E Barton ac N Hugh-Jones iddo gael ei nodi iddynt bleidleisio yn erbyn caniatáu caniatâd cynllunio). |
| 18/2004/1365/PR | Manylion lleoliad, dyluniad ac edrychiad allanol adeiladau, y ffordd fynediad a thirlunio ar gyfer codi 11 o anheddau (yn unol ag Amod 1 o'r caniatâd cynllunio amlinellol 18/2003/1050/PO) **(Lleiniau 5 - 15 yn gynwysiedig)**<br>**Tir ger Fferm Ty'n Llan, Llandyrnog, Sir Ddinbych.**<br>(Dymunai'r Cynghorydd N Hugh Jones iddo gael ei nodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio). |

CANIATAU

18/2004/1016/PF Dymchwel adeilad allanol a chodi anheddle (Llain 4), codi garej (Llain 3) a newid y mynedfeydd cerbydau a cherddwyr presennol.
**Tir ger Fferm Ty'n Llan, Llandyrnog, Sir Ddinbych.**
CANIATAU
(Dymunai'r Cynghorydd N Hugh Jones iddo gael ei nodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio).

18/2004/1440/PF Codi 3 anheddle **(Lleiniau 1 – 3)**
**Tir ger Fferm Ty'n Llan, Llandyrnog, Sir Ddinbych.**
CANIATAU Yn amodol ar gytundeb Adran 106 ynghylch tai fforddiadwy a darpariaeth mannau agored.
(Dymunai'r Cynghorydd N Hugh Jones iddo gael ei nodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio).

18/2004/1017/PF Dymchwel ffermdy presennol a chodi 2 anheddle **(Lleiniau 16 a 17)**
**Tir ger Fferm Ty'n Llan, Llandyrnog, Sir Ddinbych.**
CANIATAU Yn amodol ar gytundeb Adran 106 ynghylch tai fforddiadwy a darpariaeth mannau agored.
(Dymunai'r Cynghorydd N Hugh Jones iddo gael ei nodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio).

**GWRTHOD**

41/2004/0415/PO Datblygu 0.49 hectar o dir drwy godi 10 anheddle a newid y fynedfa gerbydau bresennol (cais amlinellol).
**Tir y tu ôl i Dinorben Arms, Bodfari, Dinbych**

**Siaradwr o'r Cyhoedd o Blaid: D Rowlands**

(Dymunai'r Cynghorydd N Hugh Jones iddo gael ei nodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio).

**GWRTHOD YN GROES I ARGYMHELLIAD Y SWYDDOGION**

01/2004/1465/PS Newidiadau i amod 11 a osodwyd ar ganiatâd cynllunio ar gyfer (a) newid adeiladau allanol yn 11 uned drigiannol (cyn Iard Gludiant, Lleweni, Dinbych) - rhif côd y cais 01/2001/0603/PF(b) newid adeiladau allanol yn 5 uned drigiannol (cyn Ysgubor a Stablau, Lleweni, Dinbych) rhif côd y cais 1/2000/0993/PF er mwyn caniatáu ar gyfer blaenarwyddion "gwaherddir mynediad" ac ailgyflinio'r ffyrdd ar y fynedfa a chyfyngu'r defnydd gan gerbydau adeiladu a cherbydau o'r ffordd heibio Maes y Parc i Ffordd yr Wyddgrug.

**Lleweni Ffordd yr Wyddgrug Dinbych**

**Siaradwr o'r Cyhoedd Yn Erbyn : David Watkin Jones**

Gwnaed y penderfyniad sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol:

**GWRTHOD am y rheswm canlynol.**
1. Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw nad yw'r newidiadau arfaethedig i amod rhif 11 yn cynnig digon o amddiffyniad i rwystro defnydd o'r ffordd rhwng y safle a Ffordd yr Wyddgrug gan drigolion a

cherbydau'n gysylltiedig â'r datblygiad ac a fyddai, felly, yn arwain at fynedfa anfoddhaol ac andwyol i fwynderau trigolion Maes y Parc.

**YMWELIADAU SAFLE**

18/2004/1492/PF

Ar ol ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth:
Pennaeth Trafnidiaeth a Seilwaith
Codi storfa beiriannau ffrâm ddur yn gysylltiedig â chynnal tir coedwig / fferm.
**Tir yn Green Covert, Llandyrnog, Dinbych**
**GOHIRIWYD** ar gyfer Ymweliad Safle gan Aelodau oherwydd pryderon ynghylch mynedfa annigonol a diogelwch y ffordd. Swyddog Priffyrdd i fod yn bresennol yn y cyfarfod Panel Archwilio Safle.

28/2005/0031/PO

(Ar ol ystyried 5 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth:
Y Prif Swyddog Cefn Gwlad, Pennaeth Cludiant, Asiantaeth yr Amgylchedd, Gwarchod y Cyhoedd, Mrs Stankiewicz 2 Ffordd Bryn y Garn)

Datblygu 0.1 hectar o dir ar gyfer 2 anheddle a newid y fynedfa gerbydau bresennol (cais amlinellol).
**Tir ar Ffordd Bryn y Garn, Henllan, Dinbych**

**GOHIRIWYD** ar gyfer Ymweliad Safle gan Aelodau oherwydd pryderon ynghylch mynedfa annigonol a diogelwch y ffordd. Swyddog Priffyrdd i fod yn bresennol yn y cyfarfod Panel Archwilio Safle.

**GOHIRIO**

44/2004/1660/PF

(Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas a Julian Thompson-Hill ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y ddau'r Siambr tra'r oedd yn cael ei drafod). Cymerodd y Cynghorydd Lloyd Williams y gadair ar gyfer yr eitem hon).
**Siaradwr o'r Cyhoedd Yn Erbyn : D. Trout**

Newid defnydd i ystorfa ac adeilad trwsio, cynnal a gwerthu carafannau a chartrefi modur i'r fasnach ac yn achlysurol i'r cyhoedd.
**Hen Ddepo Dŵr Cymru, Ffordd Abergele, Rhuddlan, y Rhyl**

(Ar ôl ystyried 2 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth: Mr & Mrs D Trout, 3 Long Acre, Rhuddlan
Mr & Mrs Eales, Castle View, Rhuddlan)

**GOHIRIWYD** er mwyn ystyried yr amodau i'w gosod gan gynnwys
1. Rheoli mân-werthu (ategol)
2. Trwsio y tu fewn i'r adeiladau'n unig
3. Dim carafannau i'w cadw ar y man parcio ger Long Acre
4. Oriau gwaith i reoli gweithgareddau trwsio / cynnal ac unrhyw fân-werthu.

47/2004/1180/PF

Codi adeilad amaethyddol a thwneli polythen ac adeiladau mynedfa gerbydau newydd.
**Cae rhifau 2217, 2800 a 3113 Waen Llanelwy** **GOHIRIWYD** er mwyn asesu ymhellach yn erbyn Polisi EMP13 ac yn enwedig yr effaith weledol. Dylid hefyd ystyried a oes angen amodau ychwanegol er mwyn delio gyda chadw coed a choed mewn gwrych a llenwi unrhyw fylchau ac ymgynghori gydag Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys /

| | |
|---|---|
| | Archeolegydd y Sir (Fiona Gale) oherwydd diddordeb archeolegol posibl a godwyd gan yr Aelodau. |
| 16/2004/1578/PF | Newid adeiladau allanol i anheddle, gosod tanc trin newydd. **Adeilad allanol ym Mhen Yr Allt Llanbedr Dyffryn Clwyd Rhuthun** **GOHIRIWYD** er mwyn ymgynghori gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chludiant a Seilwaith. |

**663. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE:**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer yr ymweliadau safle yn codi o Eitem Agenda Rhif 2 sydd i'w cynnal ddydd Mawrth 1 Mawrth 2005 ac yn nodi aelodaeth y Panel Ymweliad Safle ar hyn o bryd. Atgoffodd y Cadeirydd y Cynghorwyr, gan fod gan y panel hwn gydbwysedd gwleidyddol, y dylai'r Grwpiau wneud pob ymdrech i anfon cynrychiolydd.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle a gafodd eu cymeradwyo ddydd Mawrth 1 Mawrth 2005 gan gychwyn am 9.00am*

**664. RHESTR O GEISIADAU A GAFODD EU DELIO O DAN HAWLIAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (a rannwyd o'r blaen) o ymgeiswyr am Ganiatâd Cynllunio ac a gafodd eu penderfynu ganddo ef o dan hawliau dirprwyedig rhwng 1 Ionawr 2005 a 31 Ionawr 2005.

***PENDERFYNWYD -*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30

*********